

**Memorandwm Esboniadol: Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid
(Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion
Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024.

Sarah Murphy AS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

29 Tachwedd 2024

RHAN 1

1. Disgrifiad

1. Diben Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024 yw:
 - Rhoi effaith gyfreithiol i benderfyniad Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, o blaid awdurdodi pump ar hugain o geisiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid, ac un diwygiad i'r rhestr o ddefnyddiau o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol (PARNUT) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid yng Nghymru.
 - Darparu trefniadau trosiannol i ganiatáu i stociau presennol o ychwanegion bwyd anifeiliaid penodol a awdurdodwyd yn flaenorol gael eu disbyddu oherwydd newidiadau labelu a/neu newidiadau i amodau awdurdodi, o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir gan yr offeryn hwn.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid a diwygio un math o ddefnydd o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol (PARNUT)

3. Ystyr cynhyrchion rheoleiddiedig yw cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n gorfod cael eu hawdurdodi cyn cael eu rhoi ar y farchnad¹.
4. Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg ac awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.
5. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr 'awdurdod priodol', Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru.

¹ Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys toddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

6. Sylweddau, micro-organebau neu baratodau (ac eithrio deunyddiau bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau) yw ychwanegion bwyd anifeiliaid, a ychwanegir yn fwriadol at fwyd anifeiliaid neu ddŵr i gyflawni, yn benodol, un neu fwy o swyddogaethau penodol.
7. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi'i gynnwys yn Rheoliad a gymathwyd (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (EUR 2003/1831). Mae darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n rheoleiddio amodau labelu a deunydd pecynnu ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi'i chynnwys yn Erthygl 16 o EUR 2003/1831.
8. Mae ychwanegion bwyd anifeiliaid yn gynhyrchion rheoleiddiedig, ac er mwyn i'r cynhyrchion hyn fod ar gael ar y farchnad yng Nghymru, mae'n ofynnol iddynt fynd drwy broses ymgeisio ffurfiol. Mae'r ASB yn rheoli'r broses awdurdodiadau marchnad ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Safonau Bwyd yr Alban (FSS) sy'n cyflawni'r swyddogaeth gyfatebol yn yr Alban.
9. Mae 'PARNUT' yn cyfeirio at fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(o) o Reoliad (CE) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio (EUR 2009/767). Mae PARNUTs yn fwyd anifeiliaid sy'n gallu bodloni diben maethol neilltuol yn rhinwedd ei gyfansoddiad neu ddull gweithgynhyrchu penodol, sy'n ei wahaniaethu'n glir oddi wrth fwyd anifeiliaid cyffredin. Mae Erthygl 9 o EUR 2009/767 yn darparu na chaniateir marchnata bwyd anifeiliaid fel PARNUT oni bai bod ei ddefnydd arfaethedig wedi'i gynnwys yn y rhestr o ddefnyddiau arfaethedig a sefydlwyd o dan EUR 2009/767, a hynny dim ond pan fydd yn bodloni'r nodweddion maethol hanfodol at y diben maethol sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr honno. Mae'r rhestr honno i'w chael yn Rhan B o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) 2020/354, sy'n sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol neilltuol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

10. Cyn ymadael â'r UE, roedd y DU yn derbyn asesiadau diogelwch Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) er mwyn ategu ei gwaith awdurdodi ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig, lle'r oedd hynny'n uniongyrchol gymwys i'r DU. Ers diwedd y cyfnod gweithredu, mae Prydain Fawr hefyd wedi mabwysiadu'r un canllawiau technegol a phroses sicrhau ansawdd wrth gynnal asesiadau diogelwch annibynnol Prydain Fawr. Ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, creodd cyfraith gymathu arferion cyson mewn meysydd polisi datganoledig penodol ar draws y DU, gyda'r pedair llywodraeth yn cytuno bod angen parhau â dull gweithredu cyson ar gyfer y DU gyfan. Mae cytundebau parhaol newydd, neu 'Fframweithiau Cyffredin', sy'n nodi sut y bydd y pedair gwlad yn cydweithio

yn y meysydd polisi hyn wedi'u datblygu.

11. Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un cais i ddiwygio'r rhestr PARNUT i awdurdodau priodol Prydain Fawr. Mae'r offeryn hwn yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i'r penderfyniadau ar y ceisiadau ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid hyn a PARNUT. Fel yr 'awdurdod priodol' ar gyfer Cymru, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid mewn perthynas â Chymru.
12. Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â chynhyrchion y cyflwynwyd ceisiadau ar eu cyfer i'r UE cyn diwedd y cyfnod gweithredu ar ôl gadael yr UE, mae'r ASB/FSS wedi defnyddio asesiad risg EFSA lle y bo'n briodol i lunio barn annibynnol.
13. Darparodd yr ASB yr asesiadau diogelwch i Weinidogion Cymru. Mae copi o asesiadau diogelwch yr ASB/FSS ar gael ar wefan yr ASB, yma [Ymgynghoriad ar 24 o geisiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un cais am fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol \(PARNUT\) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid | Asiantaeth Safonau Bwyd](#) ac yma [Ymgynghoriad ar un cais i awdurdodi ychwanegyn bwyd anifeiliaid i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid | Asiantaeth Safonau Bwyd](#)
14. Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag awdurdodi'r broses o roi ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'u defnyddio yng Nghymru. Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer; deuddeg awdurdodiad newydd, wyth awdurdodiad wedi'u hadnewyddu (gan gynnwys addasu, cydgrynhoi ac ymestyn defnyddiau fel y gofynnwyd amdanynt ac a gafodd eu caniatáu), ac addasu saith awdurdodiad. Mae'r offeryn yn cynnwys trefniadau trosiannol ar gyfer rhai ychwanegion bwyd anifeiliaid a awdurdodwyd yn flaenorol er mwyn caniatáu i'r stociau presennol gael eu disbyddu oherwydd newid labelu a/neu amodau defnyddio.
15. Mae'r ASB yn cadw cofrestr gyhoeddus o ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganiateir ar y farchnad ym Mhrydain Fawr. Mae'r gofrestr ar gael ar [wefan yr ASB](#).
16. Mae'r offeryn hwn hefyd yn diwygio nodwedd faethol hanfodol o gofnod presennol yn y rhestr o ddefnyddiau arfaethedig ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol (PARNUT) yn yr Atodiad i EUR 2020/354. Gwneir y diwygiad gan ddefnyddio pwerau o dan adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 (p. 40). Mae pwerau Deddf Amaethyddiaeth 1970 wedi'u defnyddio yn lle Erthygl 10 o EUR 2009/767, tra arhosir am gywiriadau i'r geiriad diffygiol sy'n golygu na ellir defnyddio'r erthygl honno.

17. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac mae'n gymwys o ran Cymru. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi'i llunio yn Lloegr a'r Alban. Bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym ar draws Prydain Fawr ar 20 Rhagfyr 2024.

5. Ymgynghoriad

18. Ar 3 Ebrill 2024, lansiodd yr ASB [ymgynghoriad](#) wyth wythnos yng Nghymru a Lloegr ar y ffactorau cyfreithlon eraill sy'n berthnasol i'r pedwar ar hugain o geisiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid a'r un cais ar gyfer PARNUT. Lansiwyd [ymgynghoriad](#) ychwanegol ar gais ar gyfer un ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar 5 Awst 2024 am gyfnod o bedair wythnos. Lansiwyd ymgynghoriadau cyfochrog gan FSS yn ystod y cyfnod hwn.

19. Rhoddodd yr ASB wybod i awdurdodau lleol Cymru am yr ymgynghoriad, ac anfonwyd dolen at yr ymgynghoriad atynt ar ôl ei lansio. Yn ogystal, rhoddodd yr ASB wybod i randdeiliaid allweddol yng Nghymru am yr ymgynghoriad pan gafodd ei lansio.

20. Cafodd ymatebion y rhanddeiliaid eu hystyried yn drylwyr gan yr ASB/FSS. Yn unol â'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, trafodwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ymhlith y pedair gwlad (Yr ASB yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon ac FSS). Ni wnaeth unrhyw ymatebion gan randdeiliaid arwain at newid argymhelliad yr ASB i Weinidogion Cymru.

21. Cyhoeddodd yr ASB yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar [wefan yr ASB](#).

22. Mae ymatebion i ymgynghoriad FSS i'w gweld ar [wefan FSS](#).

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

23. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r pump ar hugain o geisiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid a'r un cais PARNUT. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau sylweddol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.

24. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

25. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.